MAE GAN FUSNES CYMRU
**WELEDIGAETH WERDD**

Busnes Cymru | Business Wales



# TRETH PECYNNAU PLASTIG Y DU

**03000 6 03000**

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales


Undeb Ewropeaidd
European Union

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Bwriad y Dreth Pecynnau Plastig, a gafodd ei rhoi ar waith ym mis Ebrill 2022, yw annog busnesau i ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu, ac mae'n ceisio cynyddu o 40% y defnydd o gynnwys wedi'i ailgylchu mewn deunydd pacio, yn ogystal â rhoi hwb i gyfraddau ailgylchu plastig.

O hyn ymlaen codir ffi treth gwerth £200 fesul tunnell ar becynnau plastig sy'n cael eu creu yn y DU, neu sy'n cael eu mewnfudo i'r DU, nad ydynt yn cynnwys o leiaf 30% o ddeunydd wedi'i ailgylchu.

## Pwyntiau Allweddol

Mae angen ichi gofrestru ar gyfer y Dreth Pecynnau Plastig os ydych chi wedi gweithgynhyrchu neu fewnforio 10 tunnell neu fwy o gydrannau pecynnau plastig gorffenedig o fewn y 12 mis diwethaf, neu os fyddwch chi'n gwneud hynny cyn pen y 30 diwrnod nesaf.

Bydd angen ichi dalu'r Dreth Pecynnau Plastig os ydych chi wedi gweithgynhyrchu neu fewnforio cydrannau pecynnau plastig sy'n cynnwys llai na 30% o blastig wedi'i ailgylchu.

Caiff pecynnau gynnwys plastig heb ei ailgylchu dim ond pan mae hynny wedi'i ganiatáu dan safonau diogelwch bwyd a rheoliadau eraill.

Gwiriwch pa becynnau sy'n berthnasol i'r Dreth Pecynnau Plastig a'r diffiniadau o gydrannau gorffenedig ac addasiadau sylweddol, er mwyn canfod a yw'r pecynnau rydych chi'n eu gweithgynhyrchu neu eu mewnforio yn berthnasol i'r dreth.

Cyfrifwch bwysau'r pecynnau rydych chi'n eu gweithgynhyrchu neu eu mewnforio er mwyn gwybod a oes angen ichi gofrestru ar gyfer y dreth.

## Dysgwch sut i gofrestru

Gwiriwch pa gofnodion a chyfrifon sydd angen ichi eu cadw a sut i gyflawni diwydrwydd dyladwy.

Dysgwch sut allwch chi hawlio credyd neu ohirio talu'r Dreth Pecynnau Plastig. .

## Dysgwch sut i gwblhau eich mantolen

Am ragor o wybodaeth ynghylch y Dreth Pecynnau Plastig, ewch i Gov.UK

## Cynnwys wedi'i ailgylchu


- Rhaid dangos tystiolaeth o hyn drwy ddogfennaeth ddilys, e.e. manylebau cynhyrchu, contractau, tystysgrifau cydymffurfiaeth, archebion prynu, anfonebau, achrediadau, archwiliadau sicrhau ansawdd.
- Gellir defnyddio gwastraff plastig cyn ei ddefnyddio ac ar ôl ei ddefnyddio i greu deunydd wedi'i ailgylchu.

Ar gyfer grwpiau o gwmnïau, dim ond busnesau o fewn grŵp y mae eu gweithgareddau pecynnau plastig unigol yn fwy na 10 tunnell sydd angen cofrestru ar gyfer y Dreth Pecynnau Plastig, a'i thalu (un ai ar y cyd neu ar wahân).

Bydd yr atebolrwydd am bwy sy'n talu'r Dreth Pecynnau Plastig yn dibynnu ar nifer o newidynnau. Dyma rai sefyllfaoedd cyffredin sy'n egluro pwy all fod yn atebol:


### Cludwr Am Ddim (FCA)

- Y gwerthwr yn danfon y nwyddau i leoliad a enwebwyd gan y prynwr
- Y prynwr yn cymryd atebolrwydd am y cludo ymlaen
- Y prynwr yn talu unrhyw ffioedd mewnfudo a thollau - yn debygol o fod yn atebol am dalu'r Dreth Pecynnau Plastig




### Danfonwyd â'r Tollau Wedi eu Talu (DDP)

- Y gwerthwr yn danfon y nwyddau i leoliad a enwebwyd yn y wlad ddynodedig
- Y gwerthwr yn atebol am y nwyddau nes eu bod yn cyrraedd y gyrchfan ac yn atebol am dalu am yr holl dollau sydd ynghlwm â thrafnidiaeth
- Y prynwr yn debygol o fod yn atebol am dalu'r Dreth Pecynnau Plastig




### Am ddim ar long (FOB)

- Y gwerthwr yn gyfrifol am gostau ac atebolrwydd nes bod y nwyddau wedi'u llwytho ar gerbyd a enwebwyd
- Y prynwr yn atebol am drefnu trafnidiaeth a thalu tollau
- Y prynwr yn debygol o fod yn atebol am dalu'r Dreth Pecynnau Plastig




Mae deddfwriaeth eilaidd hefyd yn cael ei gweithredu gan CThEM er mwyn gwneud busnesau sy'n prynu pecynnau plastig gan fusnesau sy'n uniongyrchol atebol **yr un mor atebol am unrhyw dreth heb ei thalu**.

**Mae disgwyl i gwsmeriaid busnesau atebol ymgymryd ag agwedd ddiwydrwydd dyladwy** i gadwyni cyflenwi er mwyn sicrhau bod treth wedi'i thalu lle bo'n briodol. Hyd yn hyn, nid yw CThEM wedi cadarnhau'r gofynion gwybodaeth ar gyfer anfonebau a gweithdrefnau archwilio.

## Pa fathau o becynnau sydd wedi'u cynnwys dan y Dreth Pecynnau Plastig?

Mae cydrannau pecynnau plastig yn drethadwy ar ôl iddynt eu 'gorffen' e.e. ar ôl yr **'addasiad sylweddol olaf'**:

| Wedi'u Cynnwys ✓ | Wedi'u Heithrio ✗ |
|---|---|
| Allwthio, mowldio, haenu, ffurfio, argraffu | Chwythu rhaglun, torri, labelu, selio o amgylch cynnyrch |
| Cynhyrchion sydd wedi'u cynllunio i'w defnyddio o fewn y gadwyn gyflenwi yn ystod y broses cyfyngiant, amddiffyn, trin, dosbarthu neu gyflwyno nwyddau, waeth a ydynt yn cael eu defnyddio yn y gadwyn gyflenwi neu gan ddefnyddwyr | Pecynnu a wnaed yn y DU/wedi'i mewnforio, gan glirio gwiriadau tollau cyn 1 Ebrill 2022 |
| Eitemau untro a ddefnyddir at ddibenion o fath pecynnu gan ddefnyddwyr, e.e. bagiau siopa, bagiau brechdanau, sachau sbwriel, cwpanau plastig | Deunydd seiliedig ar seliwlos nad yw wedi'i addasu |
| | **I'w ddefnyddio'n benodol:**<br>• Mewn cyswllt uniongyrchol gyda meddyginiaethau pobl<br>• Pecynnu gwydn, e.e. bocs tŵls, casys CDs, casys sbectol<br>• Pecynnu sy'n annatod i ddefnydd y nwyddau sydd ynddynt e.e. cetris argraffwyr, diarolygwyr ystafell, tanwyr<br>• Eitemau y gellir eu hail-ddefnyddio a ddynodwyd ar gyfer cyflwyno nwyddau, e.e. silffoedd arddangos |
| | Pecynnu trafnidiaeth sy'n cael eu defnyddio o amgylch nwyddau sy'n cael eu mewnforio, e.e. hwyluso trin/cludo ac atal difrod i nifer o unedau gwerthu/pecynnu wedi'u grwpio |

Bydd treth sy'n ddyledus ar becynnau cynradd ac eilaidd sy'n cael eu hallforio yn cael ei rhyddhau neu ei had-dalu.

## PEDWAR CAM I FODLONI'R GOFYNION

**1 Pennu'r cynnwys wedi'i ailgylchu**

**2 Caffael a chasglu tystiolaeth**

Casglu tystiolaeth ddilys o gynnwys wedi'i ailgylchu mewn cydrannau pecynnau.


**3 Crynhoi data a chyflwyno**

Cofrestru gyda CThEM a chyflwyno'n chwarterol.

**4 Asesu a lleihau effaith**

Defnyddio data i archwilio opsiynau cyflenwyr ac opsiynau pecynnau amgen.

## AMSERLEN GWEITHREDU




Valpak, 2022

## Adnoddau a chanllawiau

Busnes Cymru - Addewid Twf Gwyrdd

Busnes Cymru – Effeithlonrwydd Adnoddau

Busnes Cymru – Pecyn Cymorth Twristiaeth Cynaliadwy

Carbon Trust

Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

Energy Saving Trust – Business: Energy efficiency

Planet Mark

Science Based Targets

Sustainability Supply Chain School

Llywodraeth Cymru: Newid yn yr Hinsawdd